# Holiadur cyn-arolygiad: llywodraethwr (cynradd)

## 1.

Hoffem wybod am eich rôl o fewn yr ysgol fel aelod o'r corff llywodraethol. Darllenwch bob datganiad gan ystyried eich profiadau eich hun fel llywodraethwyr a thiciwch y blwch sy'n cyfateb orau i'ch barn. Gobeithio bydd ymateb i'r cwestiynau hyn yn gallu cael eu defnyddio hefyd i lywio a llunio eich gwaith fel corff llywodraethol.

Mae eich barn yn bwysig i ni. Bydd eich atebion chi ac atebion pobl eraill yn helpu i lywio'r arolygiad. Lle y bo'n briodol, gallem ddefnyddio'r holiaduron hyn hefyd i helpu llunio darlun cenedlaethol o waith darparwyr addysg ar draws Cymru.

Mae'r arolwg yn ddienw. Mae eich atebion yn gyfrinachol ac nid ydym yn gofyn am eich enw.

Bydd arolygwyr Estyn:

- yn darllen eich atebion
- byth yn datgelu eich atebion unigol i'r ysgol nac i unrhyw un arall y tu allan i Estyn.  Yr unig amser pan y gallem ni rannu gwybodaeth gyda phobl eraill yw os oes gennym ni bryderon am ddiogelwch dysgwyr.

Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel yn ein cronfeydd data yn unol â'n polisi ar gadw data.

**I gael gwybodaeth am sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)**

## 2.

### 1. Pa mor aml ydych chi'n cael gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd yn amserol?

☐ Bob amser

☐ Yn aml

☐ Ambell waith

☐ Byth

## 3.

**2. Ydych chi wedi cael yr hyfforddiant canlynol i'ch cynorthwyo yn eich rôl fel llywodraethwr ysgol?**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Sefydlu | ☐ | ☐ |
| Diogelu | ☐ | ☐ |
| Rôl y corff llywodraethol | ☐ | ☐ |
| Deall data | ☐ | ☐ |
| Cadeiryddion | ☐ | ☐ |
| Rheoli Perfformiad y Pennaeth | ☐ | ☐ |
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | ☐ | ☐ |
| Cydraddoldeb | ☐ | ☐ |
| Rheoli'r gyllideb | ☐ | ☐ |
| Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ |
| Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth a Her/Bod yn ffrind beirniadol | ☐ | ☐ |

## 4.

**3. A oes gennych chi lywodraethwr wedi'i enwi ar gyfer diogelu?**

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

## 5.

**4. Ydych chi’n cael diweddariadau rheolaidd ar ddiogelu?**

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn

## 6.

**5. A yw’r ysgol yn rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau bwlio ac aflonyddu?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

## 7.

**6. Ydych chi’n cael gwybod am sefyllfa ariannol yr ysgol?**

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn

## 8.

**7. Yn eich barn chi, beth mae’r corff llywodraethol yn ei wneud yn dda?**

## 9.

**8. Yn eich barn chi, beth mae angen i'r corff llywodraethol ei wella?**

## 10.

**9. Rhowch enghreifftiau lle mae'r corff llywodraethol wedi herio'r ysgol.**